

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____



Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o Efengyl Luc

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

Stori 1 Sachareias ac Elisabeth



DARLLENWCH
Luc 1: 5-25

Mae'r stori hon
yn sôn am:

**Duw yn
ateb gweddi**

Roedd Sachareias a'i
wraig Elisabeth wedi
gweddio ar Dduw yn
gofyn am gael babi ers
amser hir. Nawr
roedden nhw'n hen a
doedden nhw ddim yn
meddwl y byddai
Elisabeth yn gallu cael babi.



Un diwrnod, roedd Sachareias yn gweithio yn y deml. Daeth angel a
dweud wrtho y byddai ei wraig yn cael babi cyn hir. Roedden nhw i
fod i'w alw fe'n loan.

Pwy oedd yn mynd i gael babi?

E _ _ _ _ _

Beth fyddai enw'r babi?

I _ _ _

Doedd Sachareias ddim yn credu geiriau'r angel. Dywedodd yr angel
wrtho na fyddai'n gallu siarad nes bod y babi'n cael ei eni.

Pan fyddwn ni'n gweddio, mae'n rhaid i ni gredu y bydd Duw yn ateb
ein gweddiau.

Lliwiwch eiriau'r angel wrth Sachareias:

“Mae Duw wedi
clywed dy weddi.”



DARLLENWCH
Luc 1:26-38

Mae'r stori hon
yn sôn am:

Mair yn credu
geiriau Duw

Stori 2 Mair a Gabriel

Roedd yr angel Gabriel wedi dweud wrth Sachareias ac Elisabeth eu bod yn mynd i gael mab. Yn awr, daeth yr angel i weld Mair i ddweud y byddai hi'n cael mab hefyd. Iesu fyddai ei enw.

Beth oedd enw mam Iesu?

Mae Mab Mair yn bwysicach o lawer na mab Sachareias ac Elisabeth achos ei fod yn Fab Duw.

Doedd Mair ddim yn siwr sut y byddai hyn yn digwydd. Dywedodd yr angel y byddai popeth yn iawn. Dywedodd yr angel



“Ni bydd dim
yn amhosibl
gyda Duw!”

Lliwiwch y geiriau. Luc 1:37

Credodd Mair yr angel. Roedd hi'n wahanol i Sachareias – doedd e ddim wedi credu neges yr angel! Roedd Mair yn barod i dderbyn cynllun Duw a bod yn fam i'r Babi arbennig hwn. Dylen ni drystio Duw hefyd.

Roedd geni Iesu'n un o'r gwyrthiau mwyaf sydd wedi digwydd erioed!



DARLLENWCH
Luc 1: 57-80

*Mae'r stori hon
yn sôn am:*


**Addewidion Duw
yn dod yn wir.**

Stori 3 Ioan yn cael ei eni

Mae pobl bob amser yn falch pan fydd babi'n cael ei eni. Roedd geni babi Elisabeth yn arbennig iawn achos bod angel wedi addo y byddai hi'n cael babi.

Daeth perthnasau a ffrindiau Sachareias ac Elisabeth i weld y babi. Roedd pawb eisiau galw'r babi newydd yn Sachareias, fel ei dad, ond dywedodd Elisabeth "Na!" Dywedodd Sachareias, Ei enw yw Ioan.

Beth ysgrifennodd Sachareias?



Ar ôl iddo ysgrifennu enw'r babi, roedd Sachareias yn gallu siarad eto. Dechreuodd foli Duw. Roedd pawb yn rhyfeddu.

Tyfodd Ioan yn ddyn da iawn a oedd yn paratou'r ffordd ar gyfer yr Arglwydd Iesu.





DARLLENWCH
Luc 2: 1-7

*Mae'r stori hon
yn sôn am:*

**Duw yn rhoi
Ei Fab**

Stori 4 Geni Iesu

Roedd Mair a Joseff yn gorfod mynd ar daith bell o Nasareth i Fethlehem. Roedd y lle yn llawn pobl ond yn y diwedd cawson nhw le i aros yn y man lle'r oedd yr anifeiliaid yn byw. Cafodd Iesu ei eni a rhwymodd Mair ef mewn dillad baban. Rhoddodd ef yn y preseb lle'r oedd bwyd yr anifeiliaid yn arfer cael ei roi.



**Rhowch linell o dan yr
atebion cywir.**

Cafodd Mair a Joseff le i aros
mewn:

gwesty

palas

ysbyty

sied anifeiliaid

Cafodd Iesu ei roi mewn:

gwely

preseb

cot

Mae cannoedd o fabanod yn cael eu geni bob dydd o gwmpas y byd ond nid oes yr un babi'n debyg i Iesu. Mae'r Babi hwn yn Fab Duw.

Amser y Nadolig, cofiwch ddiolch i Dduw am Ei gariad mawr yn anfon ei unig Fab i'r byd i'n Hachub ni.

10

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157
Cyhoeddi'r gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiad Cymraeg gan Siân Roberts

Cyfes lawn o wersi dros dair blynedd i rai rhwng 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o
www.amserbeibl.org

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120